# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Brifysgolion

## Dydd Mercher 6 Rhagfyr 2023 / 12.30pm – 1.30pm (Ar-lein)

### Yn bresennol

**Hefin David AS** – Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol

**Alex Still** – Swyddfa Hefin David AS

**Niamh Salkeld** – Cynghorydd Addysg, Swyddfa Grŵp Plaid Cymru

**Yr Athro Elizabeth Treasure** – Cadeirydd Prifysgolion Cymru ac Is-Ganghellor Prifysgol Aberystwyth

**Yr Athro Maria Hinfelaar** – Is-Ganghellor Prifysgol Wrecsam

**Yr Athro Paul Boyle** – Is-Ganghellor Prifysgol Abertawe

**Darren Xiberras** – Prif Swyddog Cyllid, Prifysgol Caerdydd

**Mairwen Harris** – Pennaeth Llywodraethu a Chlerc y Bwrdd, Prifysgol Metropolitan Caerdydd

**Vivienne Stern MBE** – Prif Weithredwr Prifysgolion y DU (Universities UK, neu UUK)

**Jamie Insole** – Swyddog Polisi, yr Undeb Prifysgolion a Cholegau

**Gareth Lloyd** – Swyddog Cymru, yr Undeb Prifysgolion a Cholegau

**David Blaney** – Prif Weithredwr, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (HEFCW)

**Orla Tarn** – Llywydd UCM Cymru

**Georgia Marks** – Cynghorydd Materion Cyhoeddus, UCAS

**Kevin McStravock** – Swyddog Polisi Arweiniol (Cenhedloedd ac Ewrop), yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd

**Amanda Wilkinson** – Cyfarwyddwr, Prifysgolion Cymru

**Kieron Rees** – Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Prifysgolion Cymru

**Joshua Bell** – Cynghorydd Materion Cyhoeddus, Prifysgolion Cymru

## Cofnodion

Croesawodd Hefin David AS (Cadeirydd) yr holl westeion i'r cyfarfod.

### 1. Sylwadau gan sefydliad Prifysgolion Cymru – Yr Athro Paul Boyle

Rhoddodd yr Athro Paul Boyle (Prifysgol Abertawe) y wybodaeth ddiweddaraf am gyd-destun ariannol prifysgolion Cymru.

Tynnwyd sylw at y pwysau ariannol sy'n wynebu sefydliadau yng Nghymru, yn ogystal ag effaith chwyddiant a'r argyfwng costau byw.

Nodwyd pwysigrwydd myfyrwyr rhyngwladol, a'r gystadleuaeth gynyddol yn y gofod hwn ymhlith sefydliadau byd-eang.

Pwysleisiodd yr Athro Boyle y ffaith bod sefydliadau yng Nghymru yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r heriau ariannol.

## 2. Persbectif Prifysgolion y DU (UUK) – Vivienne Stern MBE

Gwahoddwyd Vivienne Stern MBE, Prif Swyddog UUK, i rannu ei sylwadau ar gynaliadwyedd ariannol.

Tynnwyd sylw at bwysigrwydd cael datganiad clir gan y Blaid Lafur ynghylch y llwybr graddedigion. Nodwyd y ffaith bod UUK yn gweithio ar y mater hwn.

Roedd cydnabyddiaeth bod cynaliadwyedd ariannol yn fater sy'n effeithio ar bedair gwlad y DU.

Nodwyd y ffaith bod UUK wedi comisiynu gwaith dadansoddi gan PwC yn ddiweddar, mewn perthynas â rhagolygon ariannol sefydliadau ar draws gwledydd y DU.

O safbwynt y DU, nodwyd y ffaith y gallai'r rhagamcanion o ran y twf yn y niferoedd o fyfyrwyr rhyngwladol fod yn optimistaidd, ac y byddai'r mater hwn yn parhau i fod yn fater hollbwysig yn 2024.

Rhoddwyd pwyslais ar bwysigrwydd prifysgolion i bobl ifanc. Serch hynny, tynnwyd sylw at yr effaith bosibl ar nifer y myfyrwyr domestig yn 2024 – sefyllfa a allai arwain at leihad yn y niferoedd sy'n cofrestru.

Nodwyd y bydd y costau cynyddol y mae sefydliadau'n debygol o'u hwynebu yn 2024 yn her sylweddol.

## 3. Trafodaeth agored – dan arweiniad Hefin David AS

Tynnodd Mike Hedges AS sylw at fanteision prifysgolion, eu heffaith enfawr, a'r rôl y gall y sefydliadau hyn ei chwarae o ran ysgogi economïau lleol a gwledig.

Pwysleisiodd Gareth Lloyd (UCU) bwysigrwydd annog myfyrwyr i ddychwelyd i Gymru ar ôl astudio mewn gwledydd eraill yn y DU.

Tynnodd Jamie Insole (UCU) sylw at rôl partneriaethau cymdeithasol yng Nghymru, a'r cyfleoedd sy'n bodoli i gydweithio o dan y Comisiwn ar gyfer Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CTER) yn 2024.

Pwysleisiodd Amanda Wilkinson (Prifysgolion Cymru) yr angen i ganolbwyntio ar y bylchau o ran sgiliau lefel uchel sydd i'w gweld yng Nghymru, a'r heriau posibl sy'n wynebu sectorau fel y sector iechyd os nad yw camau brys yn cael eu cymryd.

Tynnodd yr Athro Elizabeth Treasure (Prifysgol Aberystwyth) sylw at y ffaith bod y materion a drafodwyd yn berthnasol i'r portffolio addysg a phortffolio'r economi.

Tynnodd David Blaney (CCAUC) sylw at y pwysau aruthrol ar brifysgolion Cymru, gan roi sicrwydd i'r gwesteion mai arweinwyr rhagorol sydd yn y sefyllfa orau i wneud newidiadau priodol. Nodwyd bod angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod penderfyniadau yn cael eu gwneud ar gyfer y tymor hir, yn ogystal â'r tymor byr.

Tynnodd Georgia Marks (UCAS) sylw at waith UCAS ym maes myfyrwyr rhyngwladol, gan wneud ymrwymiad i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Grŵp Trawsbleidiol.

Pwysleisiodd yr Athro Maria Hinfelaar (Prifysgol Wrecsam) bwysigrwydd y sector addysg uwch o ran nodi pobl talentog i lenwi'r bylchau yn yr economi.

## 4. Cloi'r cyfarfod

Cynhelir y cyfarfod nesaf yn nhymor y gwanwyn 2024, a'r pwnc fydd gwaith CTER.

## 5. Camau y cytunwyd arnynt

Cytunwyd y dylid llunio erthygl yn gynnar yn 2024, sy'n ymwneud yn benodol â chynaliadwyedd ariannol.